**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Arbennig y Rhaglen Ghraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | L S Gibbard | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | E T Kirchner |
| W G Lewis | W G Thomas | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | C A Holley | P R Hood-Williams |

**Hefyd yn bresennol:** -
Y Cynghorydd Robert Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth
Y Cynghorydd Linda Tyler-Lloyd Cynghorydd Ward - Mayals

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth Gwasanaethau Eiddo |
| Lewis Hinds | Rheolwr Gwasanaethau Cleientiaid |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, E W Fitzgerald a/ac G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig Statudol: D Anderson-Thomas
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: L R Jones a/ac J W Jones

---

## 82 Cydymdeimladau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd â thristwch at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Sybil Crouch.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

## 83 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd D W Helliwell - Cofnod rhif 86 – Cynghorydd ar gyfer Ward Sgeti – Personol

Y Cynghorydd P K Jones - Cofnod Rhif 86 - Cynghorydd ar gyfer Ward Sgeti – Personol

Y Cynghorydd W G Thomas – Cofnod Rhif 86 - Aelod o Gyngor Cymuned y Mwmbwls a Chynghorydd ar gyfer Ward Newton – Personol

Y Cynghorydd L Tyler-Lloyd – Cofnod Rhif 86 - Aelod o Gyngor Cymuned y Mwmbwls a Chynghorydd ar gyfer Ward Mayals – Personol

**84 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**85 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Cafwyd nifer o gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn canolbwyntio ar:

- Elw ariannol tymor hir a mwynhau ardaloedd
- Cyrtiau tennis - prydles hir yn hytrach na rhydd-ddaliad i gadw'r tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; diddordeb arall a dderbyniwyd ar gyfer datblygiad y tir wrth safle'r ramp sglefrfyrddio
- Pwysigrwydd annog defnydd mwy gweithredol o'r prom, a hynny drwy'r flwyddyn, gyda'r Ddeddf Llesiant, ac ystyried bod 'Cymru Iachach' yn flaenoriaeth uchel.
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad y parc sglefrfyrddio a diffyg cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn ardal y Mwmbwls i bobl ifanc.
- Daeth y syniad am ddatblygu'r Parc Sglefrfyrddio o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dilyn cwynion gan breswylwyr am bobl ifanc yn achosi niwsans yn yr ardal gan and oes ganddynt unrhyw le i fynd
- Rhoddir pwysau i wrthwynebiadau
- Cynllun ar gyfer Gorchmynion Cyfyngiadau Traffig (TRO) yng nghyffiniau'r parc sglefrfyrddio
- Cynnydd o ran y cais cynllunio gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer Parc Sglefrfyrddio newydd
- Meini prawf ar gyfer asesu addasrwydd y tir a safle'r Ramp Sglefrfyrddio yn erbyn safleoedd posib eraill ar gyfer y parc sglefrfyrddio newydd
- Gofyniad am doiledau cyhoeddus, siopau a pharcio wrth y parc sglefrfyrddio
- Y lleoliad cywir am barc sglefrfyrddio o ystyried y golygfeydd eiconig, dim isadeiledd ategol, parcio, agosrwydd at ffordd brysur a'r gallu i ymdopi â digwyddiadau mawr
- Jams sglefrfyrddio a gynhaliwyd yn flaenorol ar y safle presennol

Anerchwyd y pwyllgor hefyd gan gynrychiolydd Grŵp Blaendraeth Bae Abertawe a fynegodd ei farn

Ymatebodd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion yn briodol i'r cwestiynau, gan ddweud y byddai'r holl sylwadau/farn yn cael eu hystyried. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cleientiaid y byddai Adroddiad y Cabinet yn symud datblygiadau posib ymlaen i'r cam nesaf, ac i beidio â gwneud penderfyniadau manwl am unrhyw safle eto. O ran y parc sglefrfyrddio, nid oedd penderfyniad ynghylch a ddylid sefydlu parc sglefrfyrddio, ond dylid ymchwilio ymhellach iddo/arfer diwydrwydd dyladwy i sicrhau ei fod yn y lleoliad cywir.

**86 Craffu Cyn Penderfynu: Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r Ymatebion Caffael a'r Camau Nesaf.**

Roedd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo a'r Rheolwr Gwasanaethau Cleientiaid yn bresennol wrth i'r pwyllgor ystyried adroddiad y cabinet ar y 'Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf’

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cleientiaid yr adroddiad i'r pwyllgor. Rhoddodd grynodeb byr o'r pum safle a ystyrir ar gyfer datblygiad posib a'r canfyddiadau ar gyfer pob safle yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymatebion caffael.

Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, roedd y pwyllgor wedi derbyn dolen i e-ddeiseb a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cynghorydd Child a'r Cynghorydd Thomas yn ogystal ag ymateb a oedd yn fasnachol sensitif a dderbyniwyd o'r Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd Lynda-Tyler Lloyd i fynegi ei barn fel aelod lleol am leoliad y parc sglefrfyrddio arfaethedig gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls a'r angen am adolygiad llawn o'i addasrwydd a'r angen i ystyried safleoedd amgen.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Y broses o ystyried gwrthwynebiadau a phwysoli'r gwrthwynebiadau hynny
- Ystyried y cynigion a dderbyniwyd o'r cam nesaf yn llawn
- Dylai unrhyw ddatblygiad ar dir ger Lido Blackpill ystyried bod traeth Blackpill wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Yr angen i gysylltu/gydlynu datblygiadau â chynlluniau strategol twristiaeth a datblygu
- Ystyriaeth o'r holl ffactorau sef amgylcheddol, diwylliannol etc. yn ogystal ag ariannol
- Cynnal a chadw safleoedd y cyngor/neu berchnogaeth gymunedol ohonynt/dim colli mynediad a chyfleusterau cyhoeddus am ddim
- Posibilrwydd cynnal a chadw pedwar cwrt tennis yn Langland a'r cyfleusterau sy'n ofynnol h.y. toiledau cyhoeddus
- Dadl ynghylch y bwriad i ddatblygu ramp sglefrfyrddio mawr

- Craffu ymhellach ar y datblygiad glan-môr

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu barn y Pwyllgor, a chaiff adborth ei gyflwyno i'r Cabinet ar 9 Ionawr 2020 cyn iddynt benderfynu ar adroddiad y cabinet.

## 87 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth iddynt ystyried adroddiad ychwanegol ar 'Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf' ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraffau eithrio 13 ac 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

## 88 Safleoedd Blaendraeth - Crynodeb o Ymatebion Ymgynghoriad Cyhoeddus a Chaffael a'r Camau Nesaf.

Ystyriodd y pwyllgor yr adroddiad ychwanegol wrth ystyried adroddiad y cabinet yn llawn.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu barn y Pwyllgor, a chaiff adborth ei gyflwyno i'r Cabinet ar 9 Ionawr 2020 cyn iddynt benderfynu ar adroddiad y cabinet.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.05 am

**Cadeirydd**